Adroddiad Cyfarfod 14:11:18
Angharad Gwyn – cwmni Adra

Nos Fercher Tachwedd 14eg, daeth nifer dda iawn ynghyd i wrando ar ein gwraig wadd sef Angharad Gwyn yn son am ei chwmni 'Adra'. Fel y cyfeiriodd Gwenan ein llywydd wrth ei chyflwyno, mae Angharad wedi hen ennill ei lle fel gwraig fusnes llwyddiannus, ac wedi cael sawl gwobr genedlaethol bellach am ei menter. Olrhain twf a datblygiad ei busnes o'r dechreuad wnaeth Angharad, gan arbenigo ar y dechrau, ar werthu ar lein dros ychydig o gwmnïau. Bellach, mae'n rhoi gofod gwerthiant i nifer fawr iawn o gwmnïau ac yn ymfalchïo mai cwmnïau a gwneuthurwyr o Gymru ydynt i gyd. Erbyn hyn hefyd, y mae wedi agor siop ym Mharc Glynllifon. Yn ffodus iawn o flaen y Nadolig fel hyn, daeth â nifer fawr o'i chynnyrch efo hi i arddangos a'u gwerthu.

Diolchwyd yn gynnes i Angharad gan Rhian.

Cydymdeimlwyd yn fawr â Mair Read ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar, dymunwyd yn dda i Gwenan merch Mabel ac Alun ar ei phriodas â Rob ac i Delyth a Morlais sydd newydd ddathlu eu priodas ruddem.

Ynglŷn â'r cinio Nadolig fydd ar y 12fed o Ragfyr, bydd y bws yn dechrau codi aelodau o du allan i Cysegr am 7 o'r gloch, gan godi pawb yn eu tro gan orffen yn Tan y Buarth o gwmpas 7.10. Cofiwch ddewis o'r fwydlen a thalu os nad ydych wedi gwneud yn barod.